



Cylchlythyr Siarter Iaith i rieni a gwarchodwyr /

Welsh Language Charter Newsletter for parents and guardians

Mae'r Criw Cymraeg a phawb yn yr ysgol wedi bod yn brysur y tymor hwn wrth i ni weithio tuag at wobr aur Y Siarter Iaith. Ymgyrch gan Lywodraeth Cymru i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ydy'r Siarter Iaith. Fel ysgol, rydyn ni eisoes wedi llwyddo i ennill gwobrau efydd ac arian y Siarter Iaith a'n huchelgais dros y flwyddyn nesaf yw anelu at y wobr aur.

The 'Cryw Cymraeg' and everyone in the school has been busy this term as we work towards 'The Welsh Language Charter' gold award. The Welsh Language Charter is an initiative by the Welsh Government to increase the number of Welsh speakers in Wales. At Ysgol Gymraeg Cwmbrân, we have won the bronze and silver accreditations and our aim over the next year is to achieve the gold accreditation.

Ein hamcanion / Our aims:

Gweledigaeth ysgol gyfan i hybu'r Gymraeg a Chymreictod / Whole school approach to promoting the Welsh language and Welsh culture

I ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol / To use the Welsh language outside of the school setting

I rannu'r Gymraeg yn y gymuned / To share the Welsh language in the community

Bod y disgyblion yn arwain yr ymgyrch / Pupils to lead and coordinate activities in school

Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddefnyddio apiau, gwrando ar gerddoriaeth a gwyllo rhaglenni teledu Cymraeg / To promote the use of the Welsh language by using different apps, listening to Welsh music and watching Welsh television programmes.

Beth sydd wedi bod yn digwydd y tymor hwn? / What's been happening this term?

- **Ethol Criw Cymraeg newydd i gydlynu'r Siarter Iaith yn yr ysgol / A new Welsh committee has been elected to coordinate the Welsh Language Charter in school**
- **Defnyddio tocynnau iaith i wobrwyo siarad Cymraeg / Use of Welsh tokens to reward use of Welsh language**
- **Chwarae cerddoriaeth Cymraeg ar yr iard yn ystod amser chwarae / Play Welsh music on the yard during playtimes**
- **Aelodau'r Criw Cymraeg â chyfrifoldeb o ddewis caneuon Cymraeg a chreu rhestrau chwarae / Members of the Welsh committee responsible for choosing and creating playlists**
- **Cyflwyno gemau buarth a gemau sgipio Cymraeg ar yr iard / Introduce Welsh yard and skipping games**
- **Dathlu Diwrnod Shwmae Su'mae / Celebrate Shwmae Su'mae Day**
- **Cydweithio gydag Ysgol Gynradd Glasllwch ac Ysgol Gynradd Dewi Sant i hybu Cymreictod mewn ysgolion Saesneg / Working with Glasllwch Primary and St. David's Primary schools to promote Welsh oracy skills**
- **Parhau i rannu gwybodaeth am weithgareddau Siarter Iaith ar wefan yr ysgol / Continue to share information about Welsh charter activities and events on the school website and 'The Welsh Language Charter' website**
- **Cynnal clybiau ar ôl ysgol mewn cydweithrediad â'r Urdd a Menter BGTM / After school clubs held in school in partnership with the Urdd and Menter BGTM**
- **Ymweliadau rhithiol gan gwmnïau drama a chystadlaethau rhithiol / Virtual theatre visits and Welsh quizzes.**

Beth allwch chi ei wneud i hybu'r Gymraeg yn y cartref? / What can you do to promote the Welsh language at home?

- **Gwyllo rhaglenni Cymraeg ar S4C / Watch Welsh programmes on S4C**
- **Gwrando ar gerddoriaeth Cymraeg / Listen to Welsh music**
- **Cwblhau rhai o heriau Seren a Sbarc / Complete some of Seren and Sbarc's challenges**
- **Defnyddio apiau a gwefannau Cymraeg / Use Welsh apps and websites**

Cofiwch edrych ar wefan 'Siarter Iaith' yr ysgol yn rheolaidd am fwy o wybodaeth. / Remember to look at the 'Welsh Language Charter' website frequently for more information.

<https://sites.google.com/hwbcymru.net/ysiarteriaith1/home>